**Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol**

**Constitutional and Legislative Affairs Committee**

Cynulliad Cenedlaethol **Cymru** National Assembly for **Wales**

Bae Caerdydd / Cardiff Bay
Caerdydd / Cardiff
CF99 1NA

Mr Leighton Andrews AC
Gweinidog dros Addysg a Sgiliau
Llywodraeth Cymru
5ed Llawr
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd
CF99 1NA

4 Gorffennaf 2011

Annwyl Weinidog

**CLA5 - Gorchymyn Hawl Plentyn i Wneud Hawliad Gwahaniaethu ar sail Anabledd (Ysgolion) (Cymru) 2011**

Bu'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol yn trafod y Rheoliadau uchod yn ei gyfarfod ar 29 Mehefin 2011 a chytunwyd y dylwn ddwyn i'ch sylw adroddiad y Pwyllgor ar rinweddau'r Rheoliadau, a gyhoeddwyd o dan Reol Sefydlog 21.3.

Cytunodd y Pwyllgor y byddai'n gwahodd y Cynulliad i roi sylw arbennig i'r Rheoliadau hyn ar y sail "ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Cynulliad" (Rheol Sefydlog 21.3(ii)).

Gosodwyd adroddiad y Pwyllgor ar y Rheoliadau yn y Swyddfa Gyflwyno ar 4 Gorffennaf, ac mae wedi'i atodi er gwybodaeth. Byddwn yn ddiolchgar pe gallech ystyried yr adroddiad a rhoi gwybod i'r Pwyllgor beth yw eich ymateb.

Rwy'n anfon copi o'r adroddiad hwn at y y Prif Weinidog er gwybodaeth, ac rwyf hefyd wedi gwneud trefniadau i ddwyn yr adroddiad a'r llythyr hwn i sylw Aelodau'r Cynulliad.

Yn gywir

David Melding

**David Melding AC**
Cadeirydd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol